# 161. OWAIN GLYNDWR A'I ANTUR I OFOD Y GORLLEWIN GWYLLT

## Eisteddfod yr Urdd 2027

~

**Y Sefyllfa**
Mae grwp o ddisgyblion Blwyddyn 7 wedi cael eu penodi gan eu athro i ysgrifennu drama ar gyfer Eisteddfod yr Urdd.

**Cymeriadau**

**Carli** – Arweinydd y grŵp, 'bossy'

**Kieron** - Techie, da iawn gyda chyfrifiaduron, eithaf 'matter of fact'

**Gruff** - Dychmygol, egniol, yn actor naturiol.

**Manon** - Gwleidyddol, synhwyrol

~

*Dosbarth ysgol.*

*Mae KIERON wrth ei gyfrifiadur, yn syllu ar y sgrin.*

*Mae Manon yn eistedd yng nghornel yr ystafell - cwfl dros ei phen ac earpods yn ei chlustiau.*

*Wedi eiliad o syllu ar ei sgrin, mae KIERON yn dechrau teipio.*

**Kieron** (*Yn teipio*) "Ysgrifenna ddrama i fi sy'n bum munud o hyd …"

*Mae CARLI yn dod i mewn trwy'r drws, ac wedi clywed diwedd brawddeg KIERON. Mae'n amlwg ei bod hi'n grac.*

**Carli** Beth wyt ti'n gwneud?

**Kieron** *Duuuuh* … dwi'n ysgrifennu.

**Carli** Clywais i beth ddwedest ti …

**Kieron** Ti wastad yn gwrando ar bobl tu ol i'w cefnau.

**Carli** Clywais i ti yn gofyn i AI i ysgrifennu drama. Ti'n twyllo!!

**Kieron** Os nad yw pobl eisiau i ni defnyddio AI … pam oes gennom ni AI yn y lle cyntaf?

**Carli** Achos mae rhaid i ni ysgrifennu'r ddrama ein hun - dyna beth ddywedodd Mr. Jones. Dyna'r peth moesol i wneud.

**Kieron** Moesol … ha! Mae'n gyflymach fel hyn!

**Carli** O … a dydw i DDIM yn gwrando ar bobl tu ol i'w cefnau.

*Mae KIERON yn parhau i deipio i mewn i'w gyfrifiadur.*

*Mae CARLI yn estyn am lyfr nodiadau o'i bag.*

**Carli** Nawr te … dw'i wedi meddwl am sawl syniad am ddrama gallen ni ysgrifennu …

*Yna, mae GRUFF wedi camu i fewn i'r ystafell.*

**Gruff** Guys … y 'drama thing' yma, ie … mae syniad EPIG gen i … yn pen fi, like.

**Carli** Hyfryd, Gruff. Nawr te, os gellen ni trafod fy syniadau i …

**Gruff** Beth am …. Owain Glyndwr.

**Kieron** Syniad class. (*Yn teipio*) "Ysgrifenna ddrama i fi am Owain Glyndwr …"

**Carli** "AI … anwybydda Kieron!!"

**Manon** Syniad rili stiwpid.

**Gruff** (*Mewn sioc*) O … mae'r ysbryd yn y gornel yn siarad!

**Carli** Pwy sydd gyda ots am beth wyt ti'n meddwl? Ti byth yn siarad yn y dosbarth.

*Mae GRUFF yn neidio ar ben y bwrdd gan ddefnyddio ei ymbarel fel cleddyf.*

**Gruff** Fi yw Owain Glyndwr. A dwi'n mynd i ymladd Brenin Lloegr ac ennill Cymru yn ol fel gwlad!

**Manon** (*dylyfyu gen*) Mor ddiflas.

**Gruff** Beth sy'n bod?

**Manon** Does neb eisiau clywed stori *arall* am Owain Glyndwr.

**Carli** Na, dwi'n cytuno yn llwyr. Nawr, os gallen ni fynd yn ol at fy syniad i …

**Manon** Beth am rywbeth mwy gwleidyddol?

**Gruff** Mwy …. Wa'?

**Manon** Dyle ni ysgrifennu am rywbeth sy'n digwydd yn y byd NAWR.

**Carli** Dwedodd Mr. Jones i ysgrifennu drama sy'n addas ar gyfer ein oedran ni.

**Gruff** GOT IT. Beth os mae Owain Glyndwr yn …. whoooooosh …. teithio i'r gofod?

**Kieron** (*yn teipio*) "Ysgrifenna olygfa am Owain Glyndwr yn teithio i'r gofod."

*Dyna beth mae GRUFF yn perfformio.*

**Gruff** Owain Glyndwr ydw i! Ac rydw i wedi adeiladu roced mawr, Cymraeg, ffansi a'i hedfan i'r gofod!

*Mae GRUFF yn esgus teithio i'r gofod.*

**Carli** Pam bydd Owain Glyndwr yn mynd i'r gofod? Chi mor anaeddfed.

**Kieron** Drama yw e, Carli.

**Gruff** Fi yw Owain Glyndwr! I come in peace!

**Manon** Bydd dim ots gan y gynulleidfa am stori fel hyn.

**Carli** STOP!

*Mae'r ton yn llais CARLI yn gwneud i bawb yn yr ystafell troi i edrych arni.*

Dwedodd Mr. Jones bod eisiau drama sy'n seiliedig ar y thema 'gwrthdaro'.

**Gruff** Gwych! Beth os mae Owain Glyndwr yn ymladd 'aliens'?

**Manon** Syniad twp. *Estron* yw'r gair Cymraeg, gyda llaw.

**Kieron** (*Yn teipo*) "Ysgrifenna ddrama am …"

**Carli** NAAA!

**Kieron** … am Owain Glyndwr yn teithio i'r gofod i ymladd estron …"

**Gruff** Fi yw Owain Glyndwr … a fi'n mynd i ymladd yr aliens yma gyda fy nunchuck karate moves ..

*A dyna beth mae Gruff yn parhau i wneud mewn ffordd gwbl theatrig.*

**Carli** Beth am ddrama am fwlio mewn ysgol?

**Manon** Mae hwnna mor boring.

**Carli** Na, TI mor boring! Dwedodd Mr. Jones …

**Kieron** Blah blah blah Mr. Jones blah blah blah …

**Carli** … bod angen drama *unigryw*.

**Gruff** OOO, beth os mae'r planed yn y Wild West?

**Kieron** (*Yn teipio*) "Ysgrifenna ddrama i fi am Owain Glyndwr yn teithio i'r gofod i ymladd estron gan ddefnyddio karate … OND … mae'r planed yn y Wild West …"

**Gruff** 'This town ain't big enough for the two of us, partner …'

*Mae GRUFF yn esgus cymryd bwa a saeth allan o'i boced ac yn saethu ei 'elyn'.*

**Kieron** Mae'r dialog mor class yn y sgript yma …

**Carli** Ond nid NI sydd wedi ysgrifennu'r ddrama! Fi'n dweud i Mr. Jones bod chi gyd yn stiwpid a fi ddim yn gallu gweithio gyda chi. Ni methu rhoi'r ddrama yma i Mr Jones! Sai'n twyllo!!

**Kieron** O ie? Pwy fydd yn gwybod?

**Carli** Pwy? PAWB. 'Owain Glyndwr a'i Antur yn y Gofod'? Wyt ti'n stipwid neu beth?

**Kieron** Fi'n ymdrechu yn nosbarthiadau Tech Gwyb. Dw'i ddim yn stiwpid.

**Gruff** Croeso pawb i'n drama ni … 'Owain Glyndwr a'i Antur i Ofod y Gorllewin Gwyllt!"

*Yna, mae CARLI yn trio tynnu GRUFF oddi ar y bwrdd.*
*Mae KIERON yn trio tynnu CARLI oddi wrth GRUFF.*
*Mae'r tri ohonyn nhw'n ymladd ac yn sgrechian.*
*Yn araf bach, mae MANON yn cymryd ei chwfl bant o'i phen ac yn cerdded tuag at y cyfrifiadur.*

**Manon** GUYS.

*Mae pawb yn stopio.*

**Gruff** Beth?

**Kieron** Ie, Manon, beth … ?

**Manon** Dyma'r ddrama! Nage chi'n gweld? Mae popeth gennom ni! Yn gyntaf … *gwrthdaro*. Yn ail … cymeriadau ein oedran *ni*. Ac yn olaf … wel, mae'n *unigryw*! Does dim ANGEN AI pan mae pedwar … nid un, dau, na tri, ond … PEDWAR brên smart gennom ni!

**Kieron** Wel, efallai nid Gruff …

**Gruff** Pwynt da.

**Manon** Carli … ble mae pen ti? Bydd eisiau ysgrifennu'r pum munud diwethaf i lawr ar bapur.

*Mae CARLI, KIERON a GRUFF yn meddwl yn galed am y peth.*

**Kieron** Beth ddigwyddodd eto … ?